

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy

RHIF YMCHWIL CYMDEITHASOL: 65/2020

DYDDIAD CYHOEDDI 03/09/2020



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Arolwg Traciwr COVID-19 ar gyfer Defnyddwyr Twristiaeth y DU: adroddiad proffil Cymru 2020 (Wythnosau 9-13)

Medi 2020

ISBN Digidol **978-1-80082-106-4**

Hawlfraint y Goron

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Gymraeg.

This document is also available in English.

Adroddiad Ymchwil Llawn: Arolwg Traciwr COVID-19 U.K. ar gyfer Defnyddwyr Twristiaeth: adroddiad proffil Cymru 2020 (Wythnosau 9-13) Medi 2020.

Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Rhif adroddiad GSR 65/2020.

Ar gael yn: <https://llyw.cymru/arolwg-tracio-defnyddwyr-twristiaeth-covid-19-proffil-cymru-13-gorffennaf-i-14-awst-2020>

Barn yr ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd un Llywodraeth Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Tîm Ymchwil a Mewnwelediad
Croeso Cymru,
Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: tourismresearch@gov.wales



Cyflwyniad



Cyflwyniad

Mae VisitEngland, VisitScotland, Croeso Cymru (Llywodraeth Cymru) wedi comisiynu arolwg wythnosol Covid-19 i dracio barn defnyddwyr i ddeall bwriad domestig i gymryd gwyliau byr dros nos a gwyliau yn y DU a thramor, gan ganolbwyntio'n benodol ar y rhwystrau a'r pryderon sy'n ymwneud â theithio ar hyn o bryd a sut y bydd y rhain yn esblygu dros amser.

Mae'r arolwg yn rhoi sylw i: tebygolrwydd preswylwyr o'r DU yn teithio; pryd a ble y maent yn bwriadu mynd; manylion penodol trip fel mathau o lety a gweithgareddau a wneir a'r math o sicrwydd y maent yn chwilio amdano o'r sector.

Mae'r traciwr yn seiliedig ar sampl o 1,500 o oedolion 16+ oed cynrychioliadol genedlaethol 16+ oed, gyda hwb i drigolion yr Alban a Chymru i ddarparu samplau wythnosol cadarn. Ailadroddir yr arolwg dros gyfnod o 13 wythnos gyda'r wythnos gyntaf ar yr wythnos yn dechrau 18 Mai.

Mae hyn yn seiliedig ar waith maes sy'n digwydd yn ystod y dyddiadau canlynol:

- **13-17 Gorffennaf; 20-24 Gorffennaf; 27-31 Gorffennaf; 3-7 Awst; 10-14 Awst**

Y diffiniadau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn (1)

Yn yr adroddiad hwn edrychwn ar broffiliau ac agweddau nifer o wahanol gynulleidfaoedd:

Yn y bennod gyntaf edrychwn ar dripiâu a gymerwyd yn y DU a Chymru. Mae pedwar diffiniad allweddol yn yr adran hon:

- **Yr holl dripiâu i'r DU a gymerwyd:** Pob aelod o'r cyhoedd sydd wedi mynd ar drip dros nos yn y DU ers dechrau mis Gorffennaf
- **Yr holl dripiâu i Gymru a gymerwyd:** Pob aelod o'r cyhoedd sydd wedi mynd ar drip dros nos yng Nghymru *yn unig* ers dechrau mis Gorffennaf at unrhyw ddiben (gwyliau, ymweld â ffrindiau neu berthnasau, busnes neu fel arall)
- **Yr holl wyliau i Gymru a gymerwyd:** Pob aelod o'r cyhoedd sydd wedi cymryd *gwyliau dros nos* (nid yn bennaf i ymweld â ffrindiau neu berthnasau, busnes neu fel arall) yng Nghymru yn unig
- **Tripiâu a fwriadwyd:** Aelodau'r cyhoedd a oedd yn bwriadu mynd ar drip yng Nghymru yn unig cyn i gyfyngiadau symud gael eu codi. Daw'r data hyn o wythnosau 5-8.

Yn yr adroddiad hwn edrychwn ar broffiliau ac agweddau nifer o gynulleidfaoedd ar wahân:

- **Bwriadwyr yr hydref:** Aelodau'r cyhoedd sy'n datgan y bydd eu gwyliau neu wyliau byr nesaf yn y DU rhwng mis Medi a mis Hydref eleni
- **Bwriadwyr y gaeaf:** Aelodau'r cyhoedd sy'n datgan y bydd eu gwyliau neu wyliau byr nesaf yn y DU rhwng mis Tachwedd 2020 a mis Mawrth 2021
- **Wythnosau 9-13:** Drwy gydol yr adroddiad, gwneir cymariaethau â'r adroddiadau a adlewyrchai bedair wythnos gyntaf yr ymchwiliad hwn. Roedd yr holiadur a'r sampl yr un peth â'r hyn a ddefnyddiwyd ar gyfer yr adroddiad hwn (wythnosau 9-13) ac mae'n adlewyrchu gwaith maes a gynhaliwyd rhwng 18 Mai a 12 Mehefin. Diben y gymhariaeth hon yw dangos sut mae bwriadau ac agweddau wedi newid dros amser, yn enwedig yn sgil codi'r cyfyngiadau yn ystod yr wythnosau diwethaf.

Y diffiniadau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn (2)

Er mwyn cyflwyno proffiliau cliriach, rydym hefyd yn proffilio yn ôl cyfnod bywyd. Mae cyfnodau bywyd yn well nag 'oedran' gan eu bod yn disgrifio sefyllfa bywyd rhywun yn well. At ddibenion yr adroddiad hwn, rydym wedi defnyddio'r canlynol:

- **Cyn-nythwyr:** 16-34 oed heb blant yn y cartref
- **Teuluoedd:** 16-64 oed gyda phlant yn y cartref
- **Annibynwyr hŷn:** 35-64 oed heb blant yn y cartref
- **Oed ymddeol:** 65+ oed.

Er mwyn hwyluso'r dadansoddi defnyddir y diffiniadau llety canlynol:

Gwesty/Motél/Tafarndy

Tŷ llety/Gwely a Brecwast/Ffermdy

hunanddarpar masnachol: Fflat/Gwesty fflatiau gwyliau rhent neu gartref gwyliau rhent

Cartref preifat: Ail gartref/timeshare neu gartref ffrind/perthynas neu yng nghartref preifat rhywun arall ar Sylfaen fasnachol (e.e. Airbnb)

Carafán/Gwersylla/Glampio: Carafán Deithiol neu Gerbyd Gwersylla/Cartref Modur neu Garafán Sefydlog neu Babell neu Glampio/Amgen

Llety arall: Hostel neu fath arall o lety

Er mwyn galluogi dadansoddi gyda meintiau sylfaen cadarn, mewn rhai lleoedd unwyd y mathau o gyrchfannau fel a ganlyn:

- **Cyrchfannau gwledig Cymru:** Cefn gwlad neu bentref + mynyddoedd neu fryniau
- **Cyrchfannau glan môr Cymru:** Morlin gwledig + tref glan môr traddodiadol/arfordirol

Y diffiniadau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn (3)

Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys pedwar segment agwedd a grëwyd i ddeall sut mae cynulleidfaoedd yn gwahaniaethu o ran agwedd mewn perthynas â COVID-19. Diffinnir y rhain isod:

Pryderus oherwydd COVID – bellach wedi ei uno ac yn cynnwys dau segment blaenorol:

- Meudwyon Gwerthfawrogol Pryderus: Yn bryderus am y feirws, sut yr ymdrinnir â'r sefyllfa ac ymddygiad cymdeithas, ond wedi gwerthfawrogi'r amser gartref. O'r herwydd, maent yn debygol o gymryd mwy o amser cyn ailgydio mewn ymddygiad 'normal'. 'Pryderon ynghylch dal y feirws' ac 'Nid yw'n gyfrifol i deithio' yw'r rhwystrau mwyaf rhag cymryd gwyliau haf neu wyliau byr yn y DU
- Dan Effaith COVID: Mae'r segment hwn yn dioddef yn ariannol ac mae hefyd yn pryderu am oblygiadau iechyd parhaus y feirws ac effaith bosibl llacio'r cyfyngiadau symud. Y rhain sy'n cofnodi'r sgoriau hwyliau isaf o'r holl segmentau. 'Pryderon ynghylch dal COVID-19' yw'r rhwystr mwyaf rhag cymryd gwyliau haf yn y DU, a'r segment hwn sy'n fwyaf tebygol o nodi bod 'cyllid personol' yn rhwystr

Gofalus oherwydd COVID: Er eu bod yn poeni'n llai am effaith y pandemig arnynt yn bersonol, mae'r segment hwn yn ofni efallai nad ydym eto heibio'r gwaethaf a byddai'n well ganddynt gyfyngiadau symud hwy. Maent yn debygol o fod yn ofalus am eu hymddygiad eu hunain ar ôl y cyfyngiadau symud. Yn mynegeo'n uchel ar 'nid yw'n gyfrifol i deithio' a 'chyfyngiadau ar deithio'.

Cefnogwyr Polisi Pragmatig: Yn pryderu am effaith COVID-19, ond yn ymddiried ac yn cefnogi polisiau'r awdurdodau ac mae'r rhan fwyaf yn credu bod y gwaethaf y tu ôl i ni. Yn fwyaf tebygol o ddweud bod 'pryderon ynghylch dal COVID-19' yn eu rhwystro rhag mynd ar dripiâu domestig. Mae cyfyngiadau ar deithio hefyd yn ffactor.

Mae Bywyd yn Mynd yn ei Flaen: Yn awchu am ddiwedd y cyfyngiadau symud, nid yw'r segment hwn yn poeni am y risgiau sy'n gysylltiedig â COVID-19 ac maent yn cefnogi codi'r cyfyngiadau symud er mwyn diogelu'r economi ac ailgydio yn eu bywydau. 'Cyfleoedd i fwyta/yfed allan' a 'llai o bethau i'w gwneud' yw'r prif rwystrau rhag gwneud trip yn y DU.

Canfyddiadau allweddol



Canfyddiadau allweddol (1)

Tripiau a gymerwyd yng Nghymru yn ystod haf 2020

1. O ganol mis Awst, roedd 1 o bob 6 (16%) o breswylwyr DU wedi cymryd gwyliau domestig dros nos neu wyliau byr, ychydig yn uwch na'r 15% a fwriadai eu cymryd ym mis Gorffennaf/Awst cyn i'r cyfyngiadau gael eu codi. A phythefnos o fis Awst ar ôl wrth i'r gwaith maes ddod i ben, mae'n debygol y bydd cyfran y tripiau a gymerir yn fwy na'r tripiau a fwriadwyd.
2. Mae'n ymddangos bod y cynnydd mewn tripiau a gymerwyd o'u gymharu â'r rhai arfaethedig wedi'i ysgogi gan 'VFR' (ymweliadau â ffrindiau a pherthnasau), a thros draean y tripiau yn perthyn i'r categori hwn, o'u cymharu â llai na 1 o bob 4 o dripiâu arfaethedig. Mae tripiau gwerth am arian yn debygol o fod yn fwy hyblyg na gwyliau, ac mae angen cynllunio llai datblygedig arnynt, sy'n esbonio pam y gallent fod wedi bod yn llai clir ar gyfer bwriadau tripiau.
3. Ymddengys mai teuluoedd sydd wedi gyrru'r tripiau a wnaed i Gymru, a bron hanner yr holl bobl a aeth ar dripiâu yng Nghymru ym mis Gorffennaf/Awst yn perthyn i'r cyfnod bywyd hwn, sy'n uwch o lawer na'r 1 o bob 3 o'r rhai a aeth ar dripiâu. Mae'n fwy tebygol i COVID-19 gael effaith ariannol ar y rhai sy'n cymryd tripiau yng Nghymru na'r rhai sy'n bwriadu mynd ar drip, gan awgrymu bod y rhai sy'n ceisio gwerth da am arian yn fwy tebygol o adael eu penderfyniad ynghylch trip i'r funud olaf.
4. Mae rhywfaint o dystiolaeth hefyd fod pobl sy'n cymryd tripiau yng Nghymru yn cynnwys mwy o bobl sy'n osgoi risg na bwriadwyr tripiau (a phobl sy'n mynd ar drip i weddill y DU), sy'n awgrymu bod Cymru'n cael ei hystyried yn gyrchfan 'risg isel'. Er bod preswylwyr o Loegr a'r Alban yn fwy niferus na phreswylwyr Cymru ymhlith y rhai sy'n cymryd tripiau yng Nghymru, ymwelodd bron hanner cymaint o bobl o'r tu allan i Gymru ag a fwriadai wneud.
5. O edrych ar gyrchfannau gwyliau yn unig, mae'r gostyngiad yn y tripiau a gymerwyd yn gyson i raddau helaeth â bwriadau tripiau – de-orllewin Lloegr oedd y gyrchfan fwyaf poblogaidd, ac ymwelwyd â Chymru gan 10% (yr un peth â'r bwriadau tripiau). Mae'n werth nodi mai Cymru yw rhanbarth y DU sy'n fwyaf tebygol o fod wedi denu ymwelwyr gwyliau (yn wahanol i VFR, busnes neu fathau eraill o ymwelwyr).
6. 'Cefn gwlad neu bentref' oedd y math mwyaf poblogaidd o gyrchfan gwyliau yng Nghymru ac roedd yn gyson i raddau helaeth â bwriadau tripiau. Fodd bynnag, roedd tripiau i 'drefi arfordirol/glan môr traddodiadol' a 'mynyddoedd neu fryniau' yn sylweddol is na'r bwriad. Gall hyn fod o achos pryderon ynghylch dal COVID-19, ond yn yr un modd gall adlewyrchu argaeledd cyfyngedig llety, yn enwedig i grwpiau teuluol sydd ag anghenion llety mwy pwrpasol.
7. 'Carafanau/gwersylla' a 'chartref preifat' oedd y ddau brif ddewis llety, yn unol â bwriadau tripiau. Ffaith nodedig yw i 'hunanmarlwy masnachol', 'gwesty', a 'gwestai/gwely a brecwast' fynegeo'n sylweddol is nag arfer. Unwaith eto, gall hyn fod yn rhannol oherwydd argaeledd, yn enwedig ar gyfer y gynulleidfa deuluol 'fwy na'r disgwyl', ond gall hefyd adlewyrchu'r ffaith iddynt ailagor ychydig yn hwyrach a phryderon ynghylch mathau llai hunangynhwysol o lety â gwasanaethau.

Canfyddiadau allweddol (2)

Y teimlad cyffredinol ym marchnad gwyliau byr a gwyliau'r DU

1. Adeg yr arolwg rhwng canol Gorffennaf a chanol Awst, mae pobl yn parhau'n ofalus ynghylch cynnal gweithgarwch hamdden ymhlith preswylwyr o'r DU a Chymru. Fodd bynnag, mae lefelau cyffordduswydd wedi cynyddu ers canol mis Mehefin a chanol mis Gorffennaf, yn enwedig ar gyfer gweithgareddau megis 'bwyta mewn bwyty', efallai yn sgil y cynllun Estyn Llaw drwy Fwyta Allan. Am y tro cyntaf ers i'n hymchwil ddechrau, mae preswylwyr o'r DU a Chymru yn 'yn fwy tebygol o ran nifer net' o fwyta mewn bwytai dan do yn ogystal â bwytai â seddau awyr agored. Mae cyffordduswydd pobl ynghylch 'teithio ar gludiant cyhoeddus' hefyd wedi cynyddu, ond hwn yw'r gweithgarwch isaf ei lefelau cyffordduswydd o hyd.
2. Er gwaethaf lefelau cysur cynyddol ynghylch gweithgareddau bob dydd, mae hyder yn y gallu i gymryd gwyliau byr neu wyliau o fis Medi ymlaen naill ai wedi gwastatáu neu wedi gostwng. Gall hyn fod yn gysylltiedig ag ofnau am ail don sy'n cael eu sbarduno gan gyfyngiadau symud lleol, a'r rhan fwyaf o'r boblogaeth yn disgwyl cyfyngiadau symud yn ystod y misoedd nesaf.
3. Teuluoedd sydd fwyaf hyderus, ynghyd â chyn-nythwyr, ynghylch eu gallu i gymryd gwyliau neu wyliau byr yn y DU ym mis Medi. Cyn-nythwyr yw'r cyfnod bywyd mwyaf hyderus i allu mynd ar drip rhwng Hydref a Mawrth 2021. Oed ymddeol yw'r cyfnod bywyd lleiaf hyderus o hyd ar draws pob cyfnod amser
4. Ymhlith preswylwyr y DU a Chymru, y prif rwystr i hyder wrth fynd ar dripiâu domestig o fis Medi ymlaen yw 'dal COVID-19', sy'n llawer mwy dylanwadol na'r rhwystr pwysicaf nesaf (llai o bethau i'w gwneud/lleoedd i ymweld â nhw), ac yn enwedig ymhlith oed ymddeol. Mae cyn-nythwyr yn fwyaf tebygol o ddyfynnu pryderon ariannol, gan awgrymu, er gwaethaf eu hyder, efallai nad oes ganddynt y modd i fynd ar dripiâu.
5. Gan adlewyrchu sefyllfa gytbwys hyder gwyliau, mae cyfran y cyhoedd sy'n bwriadu cymryd llai o wyliau a gwyliau yn y DU eleni yn parhau'n llawer is na'r rhai sy'n disgwyl cymryd mwy o dripiâu.
6. Mae preswylwyr o Gymru yn llai hyderus ac yn fwy gofalus na phreswylwyr y DU, er bod y bwlch yn llai nag o'r blaen ar gyfer gweithgareddau lle mae'r cyfyngiadau wedi'u codi ers cyfnod hwy (e.e. siopa yn eich canolfan siopa leol).
7. Mae 20% o oedolion y DU (tua 9.4 miliwn) yn bwriadu cymryd gwyliau byr neu wyliau rhwng mis Medi a mis Hydref. Mae 19% o breswylwyr o Gymru (tua 434mil) yn bwriadu gwneud hynny, sy'n adlewyrchu lefelau hyder tebyg. Mae hyn yn cymharu ag amcangyfrif o 16% o breswylwyr y DU (tua .7.5 miliwn) a 14% o breswylwyr o Gymru (tua 323mil) sydd wedi cymryd gwyliau neu wyliau ers dechrau mis Gorffennaf.

Canfyddiadau allweddol (3)

Proffiliau Ymwelwyr a Thripiâu Cymru ar gyfer yr hydref/gaeaf

1. Ymhlith preswylwyr y DU sy'n cynllunio gwyliau domestig yr hydref hwn (rhwng mis Medi a mis Hydref), Cymru yw cyrchfan rhif pedwar – De-orllewin Lloegr, yr Alban a Gogledd-orllewin Lloegr yw'r tair uchaf. Ymhlith preswylwyr o Gymru sy'n cynllunio trip yn yr hydref eleni, Cymru yw cyrchfan rhif un ac wedyn de-orllewin Lloegr.
2. Yn debyg i fwriadau'r haf, mae preswylwyr o Gymru, gorllewin Canolbarth Lloegr a gogledd-orllewin Lloegr yn fwyaf tebygol o fwriadu cymryd gwyliau byr neu wyliau yng Nghymru yn yr hydref eleni. Mae diddordeb hefyd gan tua 1 o bob 10 o ranbarth hynod boblog Llundain, er y bydd angen rhywfaint o berswâd ar breswylwyr Llundain i ymweld – maent yn fwyaf tebygol o ystyried cyrchfannau eraill, ac ychydig a newidiodd i dripiâu ym mis Gorffennaf ac Awst.
3. Mae tua thraean y bobl sy'n ystyried trip i Gymru yn yr hydref eleni hefyd yn ystyried mynd ar drip i rywle arall yn y DU – de-orllewin Lloegr, Swydd Efrog a'r Alban yw'r tri phrif ddewis arall.
4. Bydd proffil ymwelwyr yn ystod misoedd yr hydref yn symud o 'deuluoedd' a 'chyn-nythwyr' i 'annibynwyr hŷn' ac 'oed ymddeol', yn enwedig ym mis Medi pan nad oes gwyliau ysgol. Ym mis Hydref ac yn ystod misoedd y gaeaf, teuluoedd eto yw'r cyfnod bywyd mwyaf, er bod hyn yn debygol o gael ei ganoli o gwmpas gwyliau'r ysgol.
5. Mae bwriadwyr i Gymru bob amser yn fwyaf tebygol o berthyn i'r segment agwedd 'mae bywyd yn mynd ymlaen' sy'n awgrymu y bydd pobl yn agored i gynnal amrywiaeth o weithgareddau ar eu trip. Fodd bynnag, mae misoedd yr hydref a'r gaeaf yn fwy tebygol na misoedd yr haf o ddenu ymwelwyr gofalus oherwydd COVID. Mae gan Gymru gynrychiolaeth uwch o segment gofalus oherwydd COVID, gan awgrymu unwaith ei bod yn cael ei hystyried yn gyrcfan 'risg isel'.
6. Eryri yw'r gyrcfan fwyaf poblogaidd o hyd ar gyfer taith hydref i Gymru, ac wedyn Canolbarth Cymru a Bannau Brycheiniog. Ymhlith preswylwyr o Gymru, Sir Benfro yw'r gyrcfan fwyaf poblogaidd – sy'n gyson â'r bwriadau yn yr haf. Yn ystod misoedd y gaeaf, mae Eryri yn parhau'n hoff gyrcfan ymhlith preswylwyr y DU, ac yn agos ar ei ôl mae Caerdydd, sef cyrcfan rhif un preswylwyr o Gymru.
7. Mae bwriadwyr i Gymru yn bwriadu dod i Gymru ar gyfer amrywiaeth o fathau o wyliau, er mai 'cefn gwlad neu bentref' yw'r rhif un ar draws yr hydref a'r gaeaf. Mae 'tref glan môr draddodiadol' yn cadw ei hapêl yn yr hydref, ond mae'n llai dymunol yn y gaeaf.
8. 9. Mae tua 1 o bob 4 ymwelydd â Chymru yn yr hydref yn debygol o deithio gyda phlentyn neu oedolyn ifanc, er bod hyn yn sylweddol is ym mis Medi nag ym mis Hydref, gan adlewyrchu yn ôl pob tebyg y dychweliad arfaethedig i'r ysgol ym mis Medi.

Canfyddiadau allweddol (4)

Llety, Archebu a Theithio

1. 'Hunanarlwyo masnachol' yw'r math o lety rhif un ymhlith bwriadwyr hydref a gaeaf Cymru, sy'n llawer mwy ffafriol na misoedd yr haf. Mae 'carafán/gwersylla' yn cadw rhywfaint o'i apêl ar draws y ddau gyfnod, er bod goruchafiaeth 'carafán statig' yn yr hydref yn ildio lle i 'gerbyd gwersylla/cartref modur' yn y gaeaf.
2. Mae gan ymwelwyr fwriadau uwch i aros mewn llety â gwasanaethau yn ystod eu tripiâu i Gymru yn yr hydref a'r gaeaf o'u cymharu â'r defnydd is na'r arfer o lety â gwasanaethau ar dripiâu a gymerwyd yn ystod cyfnod yr haf.
3. Ymwelwyr â Chymru yn yr hydref a'r gaeaf sydd fwyaf tebygol o archebu eu llety'n uniongyrchol gyda darparwr, ond mae hynny'n llawer mwy gwir am fisoedd yr hydref, wedi'i ysgogi gan yr achosion uwch o bobl o oed ymddeol y mae'n well ganddynt y cyfrwng hwn. Asiant teithio ar-lein a gwefan aros mewn cartref yw'r cyfryngau nesaf o ran poblogrwydd.
4. Mae aros dros nos yn ystod misoedd yr hydref a'r gaeaf yn fwy tebygol o fod yn wyliau byr na gwyliau o 4+ noson, er mai ymylol yw'r gwahaniaeth rhwng y naill a'r llall. Mae Cymru'n parhau i fod yn un o gyrchfannau'r DU sy'n fwyaf tebygol o gynhyrchu tripiâu o 4+ noson.

Canfyddiadau allweddol (5)

Gwariant Ymwelwyr

1. Y gwariant a ragwelir ar gyfer tripiâu Cymru yn ystod yr hydref eleni yw £476 y parti, sy'n sylweddol is na chyfartaledd y DU (£615). Mae'r gostyngiad mewn gwariant yn adlewyrchu llai o deuluoedd, llai o wyliau o nosweithiau 4+ a chynulleidfa sy'n cael ei llywio gan werth am arian. Mae ymwelydd yr hydref yn debygol o fod yn fwy ymwybodol o'r gost, ac 1 o bob 4 ar incwm is (o'u gymharu ag 1 o bob 5 o fwriadwyr yr haf), nifer uwch na'r cyfartaledd yn dweud eu bod yn 'iawn' yn ariannol a llawer llai yn dweud eu bod 'gwell eu byd na chyn y pandemig'.
2. Amcangyfrifir bod gwariant tripiâu yn uwch yng Nghymru yn ystod cyfnod y gaeaf (sef £598) sy'n adlewyrchu cynrychiolaeth uwch teuluoedd a'r defnydd o lety â gwasanaeth. Mae gwariant cyfartalog y gaeaf hefyd yn is na'r DU gyfan (£697), gan bwysleisio safle Cymru ymhellach yn gyrchfan gwerth da (gwariant is).


Tripiau a gymerwyd ym mis Gorffennaf ac Awst




Triplau a gymerwyd a phwrpas triplau ym mis Gorffennaf/Dechrau Awst

- O ganol mis Awst, roedd 16% o oedolion y DU (tua 8.7 miliwn) wedi cymryd gwyliau byr neu wyliau dros nos yn y DU ers i'r cyfyngiadau gael eu codi ddechrau mis Gorffennaf – 14% o breswylwyr o Gymru. Mae'r ddau rif yn uwch na'r triplau a fwriadwyd cyn i'r cyfyngiadau gael eu codi, ac mae'r bwlch hwn yn debygol o gynyddu wrth i'r ymchwil gynnwys ymatebion hyd at ddiwedd mis Awst.
- Mae'n ymddangos bod yr achosion uwch o driplau a gymerwyd o achos 'VFR' (ymweliadau â ffrindiau a pherthnasau) yn hytrach na thriplau gwyliau. VFR oedd dros draean (35%) y triplau a gymerwyd oedd VFR, o'u gymharu ag 1 o bob 4 (23%) o'r triplau a fwriadwyd. Gall hyn fod oherwydd bod triplau VFR yn fwy digymell.

Ffigwr 1. Wedi cymryd gwyliau dros nos neu wyliau byr yn y DU ers mis Gorffennaf, Canran Wythnosau 12-13, Y DU.



Ffigwr 2. Pwrpas gwyliau neu wyliau byr arfaethedig neu a gymerwyd yn y DU, Canran Wythnosau 12-13, Y DU.




QVB13a. Ydych chi eisoes wedi cymryd gwyliau byr dros nos neu wyliau yn y DU ers dechrau mis Gorffennaf? VB13e. A pha un o'r canlynol sy'n disgrifio orau ddiben y trip a gymerwyd gennych ym mis Gorffennaf/Awst? Sail: Drwy'r wythnos 12-13 ymatebydd. Preswylwyr y DU=3,514. Preswylwyr o Gymru n=406.

Ble'r arhoswyd ar dripiâu ym mis Gorffennaf/Dechrau Awst

- Yn unol â'r bwriadau, de-orllewin Lloegr yw rhanbarth y DU sydd wedi cynhyrchu'r gyfran uchaf o *dripiâu gwyliau* ers mis Gorffennaf, ac wedyn gogledd-orllewin Lloegr, dwyrain Lloegr a'r Alban.
- Aeth 10% o breswylwyr y DU a gymerodd *wyliau* domestig i Gymru, yn unol â bwriadau 'pob trip'. Ymwelodd 7% o holl bobl sy'n cymryd tripiâu â Chymru, yn is na ffigur y gwyliau oherwydd llai o dripiâu VFR. Mae'n werth nodi, er bod ardaloedd megis de-ddwyrain Lloegr a Llundain yn sgorio'n gymharol uchel ar gyfer 'pob trip', maent yn gostwng yn sylweddol pan edrychir ar wyliau yn unig

Ffigur 3. Lle maent yn cynllunio aros ar eu trip dros nos nesaf y DU ar gyfer bwriadwyr yr hydref, Canran Wythnosau 12-13, Preswylwyr o'r DU a Chymru, wedi'u trefnu yn ôl eu gwyliau

■ Pob trip yn y DU a gymerwyd ■ Gwyliau yn y DU a gymerwyd (ac eithrio VFR a busnes) □ Bwriadau tripiâu yn y DU




CB13c. Ble yn y DU y gwnaethoch chi aros ar y trip hwn ym mis Gorffennaf/Awst? Sail: Pob ymatebydd a gymerodd drip dros nos yn y DU. Holl dripiâu'r DU n=592; pob gwyliau neu wyliau byr yn y DU n=326

Pwrrpas tripliau ym mis Gorffennaf/Dechrau Awst fesul cyrchfan

- Cymru yw'r gyrchfan yn y DU sydd *fwyaf* tebygol o ddenu ymwelwyr gwyliau ers mis Gorffennaf, a 78% o ymwelwyr dros nos yn perthyn i'r categori hwn. Mae Swydd Efrog a Humber, de-orllewin Lloegr, dwyrain Lloegr a'r Alban gyda Chymru yn un sy'n cynhyrchu mwyafrif o ymwelwyr gwyliau.

Ffigur 4. Pwrrpas tripliau ym mis Gorffennaf/Dechrau Awst fesul cyrchfan, Canran Wythnosau 10-13, Y DU.




Vb13e. Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau ddiben y daith a gymerwyd gennych ym mis Gorffennaf/Awst? Sail: Pawb a aeth ar drip i bob cyrchfan yn unig Cymru n=82, Dwyrain Lloegr n=68; Dwyrain Canolbarth Lloegr n=77; Gogledd-ddwyrain Lloegr n=81; Gogledd-orllewin n=126; De-ddwyrain Lloegr n=100; De-orllewin Lloegr n=119; West Mids n=39*; Swydd Efrog a Humber n=70; Llundain n=95; Yr Albann=113


Demograffeg y rhai sy'n cymryd triapiau

- Teuluoedd yw bron hanner y rhai sy'n mynd ar driapiau gwyliau i Gymru ers mis Gorffennaf, sy'n sylweddol uwch na bwriadau ymwelwyr cyn i'r cyfyngiadau gael eu codi. Mae'r cynnydd mewn teuluoedd ar draul pobl oed ymddeol ac annibynnwyr hŷn sy'n mynegeo'n is na bwriadwyr triapiau. Mae ymwelwyr gwyliau â Chymru yn cynnwys pob grŵp economaidd-gymdeithasol, ond mae cynrychiolaeth uwch o raddau cymdeithasol is o'i chymharu â bwriadau triapiau, tra bo graddau cymdeithasol AB uchel yn gyson â bwriadau ymweld

Ffigur 5. Dadansoddiad o'r boblogaeth a'r rhai sy'n cymryd triapiau fesul cyfnod bywyd, Canran Wythnosau 10-13, Y DU a Chymru




Ffigur 6. Dadansoddiad o'r boblogaeth a'r rhai sy'n cymryd triapiau fesul gradd gymdeithasol, Canran Wythnosau 10-13, Y DU a Chymru




Effaith ariannol COVID-19 ar y rhai sy'n cymryd triapiau

- Mae'r gyfran uchaf o'r bobl sy'n mynd ar driapiau yng Nghymru (46%) yn perthyn i'r categori sy'n datgan bod pethau'n iawn ond bod rhaid iddynt fod yn ofalus gyda chyllid. Mae pedwar arall o bob deg yn datgan nad effeithiwyd arnynt neu eu bod yn well eu byd.
- O'u cymharu â 'bwriadwyr triapiau Cymru' a'r rhai sy'n mynd ar driapiau i fannau eraill yn y DU, mae'r rhai sy'n mynd ar drip i Gymru yn fwy tebygol o gael eu 'taro'n galed' gan COVID-19, yn dweud eu bod yn 'iawn ond bod rhaid iddynt fod yn ofalus', neu eu bod ar incwm is. Golyga hyn y bu cyfran sylweddol o archebwyr munud olaf yn chwilio am driapiau sy'n rhoi gwerth da am arian yng Nghymru.

Ffigur 7. Dadansoddiad o'r rhai sy'n cymryd triapiau o'u cymharu â bwriadwyr fesul segment ariannol, Canran Wythnosau 10-13, U.K. a Chymru



Ffigur 8. Effaith cyflogaeth ar y rhai sy'n cymryd triapiau o'u cymharu â bwriadwyr, Canran Wythnosau 10-13, U.K. a Chymru




C17. Pe bai'n rhaid i chi ddewis, pa un o'r datganiadau canlynol fyddai'n disgrifio eich teimladau orau nawr?

VB8b: Wrth feddwl am eich gwaith a'ch amgylchiadau ariannol pa rai, os o gwbl, o'r canlynol sydd wedi digwydd i chi o ganlyniad i'r pandemig COVID-19? Sail: Pob ymatebydd. Poblogaeth y DU n=8947 Yr holl driapiau i Gymru n=80; Gwyliau Cymru n=62

Lefel cyfforddusrwydd wrth wneud gweithgareddau ymhlith y rhai sy'n cymryd triapiau

- Mae bwriadwyr triapiau i Gymru a phobl sy'n cymryd triapiau, yn gyson o ran arddangos lefelau cyfforddusrwydd sylweddol uwch gyda gweithgareddau bob dydd na phoblogaeth ehangach y DU. Mae hyn yn amlygu'n glir bod 'agwedd at risg' yn parhau i fod yn sbardun ar gyfer cymryd gwyliau domestig. Fodd bynnag, mae pobl sy'n cymryd triapiau yng Nghymru yn dangos lefelau cyfforddusrwydd is na'r rhai sy'n cymryd triapiau ar y cyfan, gan awgrymu bod Cymru'n cael ei hystyried yn gyrchfan 'risg isel',

Ffigur 9. Lefel cyfforddusrwydd yn cynnal ystod o weithgareddau ar wahân ac wedi'u cyfuno, Ddim yn gyfforddus iawn a gweddol gyfforddus, Wythnosau 10-13 , y DU a Chymru




CB11. A siarad yn fras, pa mor gyfforddus neu anghyfforddus y byddech chi'n ei deimlo wrth wneud y canlynol yn ystod y mis neu ddau nesaf? Yr holl driapiau i Gymru n=80; Gwyliau Cymru n=62

Segmentau agwedd (gweler y dudalen diffiniadau i gael rhagor o wybodaeth)

- Mae'r rhai sy'n mynd ar dripiâu yng Nghymru yn fwyaf tebygol o berthyn i'r segment agwedd **Mae Bywyd yn Mynd Ymlaen**, tra bo'r rhai sy'n cymryd gwyliau yn fwy tebygol o berthyn i segment **Cefnogwyr Polisi**, mae'r naill a'r llall yn fwy hyderus ar y cyfan wrth ailgydio mewn gweithgareddau bob dydd yn sgil lleddfu'r cyfyngiadau. Wedi dweud hynny, mae cyfran y bobl sy'n mynd ar drip i Gymru sydd ag agwedd **Mae Bywyd yn Mynd Ymlaen** yn is na chyfartaledd y DU, gan danlinellu ymhellach yr awgrym bod Cymru'n cael ei hystyried yn gyrchfan 'risg is'.


Ffigur 10. Segmentau, Canran Wythnosau 12-13



Y bwriad i aros yng Nghymru yn ôl rhanbarth preswyl

- Cymerodd bron hanner yr holl bobl sy'n byw yng Nghymru ac a aeth ar wyliau eu gwyliau yng Nghymru, a oedd mymryn yn uwch na'r gyfran a fwriadai wneud hynny. Pobl a oedd yn mynd ar wyliau o orllewin Canolbarth Lloegr oedd yr ail fwyaf tebygol o ymweld â Chymru am arhosiad dros nos, sef 1 o bob 5, a oedd hefyd yn uwch na'r gyfran a oedd yn bwriadu gwneud hynny.
- Pobl yn mynd ar eu gwyliau o dde-orllewin Lloegr a gogledd-orllewin Lloegr oedd y rhai mwyaf tebygol nesaf o gymryd gwyliau yng Nghymru, lle'r oedd ychydig o dan 10% o'r rhai a oedd yn cymryd gwyliau yn y rhanbarthau hyn yn ymweld â Chymru.
- Cymerodd cyfran debyg o bobl a aeth ar wyliau o dde-ddwyrain Lloegr a Swydd Efrog wyliau yng Nghymru ond er bod 8% o fwriadwyr Llundain yn bwriadu ymweld â Chymru, dim ond 1% a wnaeth hynny yn y pen draw.

Ffigur 11. Cyfran y rhai sy'n cymryd trip dros nos a gymerodd dri i Gymru fesul rhanbarth, Canran Wythnosau 10-13, y DU a Chymru, wedi eu trefnu yn ôl eu dewisiadau gwyliau




VB13c. Ble yn y DU y gwnaethoch chi aros yn ystod y trip hwn ym mis Gorffennaf/Awst?

Cymry n=132, Dwyrain Lloegr n=45; Dwyrain Canolbarth Lloegr n=81; Gogledd-ddwyrain Lloegr n=42; Gogledd-orllewin n=99; De-ddwyrain Lloegr n=124; De-orllewin Lloegr n=66; West Mids n=92; Swydd Efrog a Humber n=90; Llundain n=186; Yr Albann=161.

Nifer yr arosiadau dros nos yng Nghymru fesul rhanbarth preswyl

- Pan droir y ffigurau hyn yn niferoedd oddi mewn i'r boblogaeth, Cymru yw'r rhanbarth sydd wedi cynhyrchu'r nifer uchaf o dripiâu yng Nghymru ers mis Gorffennaf. Yma hefyd y gwelwyd y cynnydd mwyaf o ran tripiâu o'u cymharu â bwriadau. Cynhyrchodd y rhan fwyaf o ranbarthau Lloegr lawer llai o ymweliadau na bwriadau, a bron dwywaith cymaint yn dweud y byddent yn ymweld ag ef nag a wnaeth ymweld.

Ffigur 11b. Nifer y rhai sy'n cymryd tripiâu ar ffurf rhifau absoliwt fesul rhanbarth, Nifer (000), Wythnosau 10-13, y DU a Chymru, wedi eu trefnu yn ôl pob trip a gymerwyd




VB13c. Ble yn y DU y gwnaethoch chi aros yn ystod y trip hwn ym mis Gorffennaf/Awst?

Cymry n=132, Dwyrain Lloegr n=45; Dwyrain Canolbarth Lloegr n=81; Gogledd-ddwyrain Lloegr n=42; Gogledd-orllewin n=99; De-ddwyrain Lloegr n=124; De-orllewin Lloegr n=66; West Mids n=92; Swydd Efrog a Humber n=90;Llundain n=186; Yr Albann=161.

Mathau o leoliadau ar gyfer tripiâu a gymerwyd ym mis Gorffennaf/Dechrau Awst

- 'Cefn gwlad neu bentref' oedd y math mwyaf poblogaidd o gyrchfan i'r rhai aeth ar wyliau yng Nghymru, a thua thraean yn aros yn yr ardaloedd hyn, yn gyson â bwriadau tripiâu. Arhosodd mwy nag 1 o bob 4 (27%) mewn tref arfordirol/glan môr draddodiadol, sy'n is o lawer na'r 44% a oedd yn bwriadu gwneud hynny. Arhosodd cyfran debyg (23%) ar yr arfordir gwledig, a hynny'n gyson â bwriadau tripiâu.
- Roedd mynyddoedd neu fryniau yn gyrchfan i 17% (sy'n is na'r bwriad) a dinasoedd threfi mawr yng Nghymru oedd y gyrchfan ar gyfer dim ond 10% o dripiâu, sy'n llawer is nag arfer, ac yn sylweddol is na thripiâu'r DU ar y cyfan. Mae'n werth nodi bod cyfran net y mathau o dripiâu 'a fwriadwyd' yn 'naturiol' yn uwch na'r math a gymerwyd – mae bwriadwyr yn dueddol o gadw eu hopsiynau'n agored cyn archebu trip. Gall amrywiaeth o ffactorau effeithio ar archebion go iawn gan gynnwys argaeledd llety.

Ffigur 12. Y prif fath o gyrchfan ar gyfer trip dros nos i Gymru Gorffennaf/ dechrau Awst, Canran Wythnosau 10-13, Y DU.




VB13d. Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau y prif fathau o gyrchfan yr ydych wedi aros ynddynt yn ystod eich trip ym mis Gorffennaf/Awst?

Yr holl dripiâu i Gymru n=80; Gwyliau Cymru n=62

Mathau o lety a ddefnyddiwyd ar dripiâu a gymerwyd ym mis Gorffennaf/Dechrau Awst

- Yn gyson â bwriadau tripiâu, carafannau/gwersylla fu'r dewis mwyaf o lety i arosiadau gwyliau i Gymru ym mis Gorffennaf ac Awst, wedi'u hysgogi'n bennaf gan 'garafán statig' (24%) a chartref modur (11%). 'Cartref preifat' yw'r dewis llewyf poblogaidd o dripiâu a gymerwyd, sydd hefyd yn gyson â bwriadau tripiâu, ac wedi'i ysgogi yn bennaf gan 'lety aros mewn cartrefi' megis Airbnb (17%).
- Arhosodd tua un o bob pump o bobl a aeth ar wyliau mewn 'hunanarlwyo masnachol', sef cyfran is na'r rhai sy'n bwriadu gwneud hynny ac efallai fod argaeledd wedi effeithio ar y rhai sydd ar gael. Arhosodd cyfran llawer is na'r arfer o ymwelwyr mewn llewyf 'gwesty/motel/tafarn' a 'gwestai/tŷ fferm gwely a brecwast'.
- Mae arosiadau mewn llewyf hunanarlwyo, gwesty/motel/tafarn a thŷ llewyf/gwely a brecwast/ffermdy yn is nag ymhlith tripiâu i'r DU ar y cyfan

Ffigur 13. Llety yr arhoswyd ynddo ar drip i Gymru ym mis Gorffennaf/Awst, Canran net, Wythnosau 10-13, Y DU.




VB13f. Ym mha fathau o lety y gwnaethoch chi aros ynddynt yn ystod eich trip i'r DU ym mis Gorffennaf/Awst?
Sail: Pob ymatebydd. Poblogaeth y DU n=8947 Yr holl dripiâu i Gymru n=80; Gwyliau Cymru n=62

Mathau o lety a ddefnyddiwyd ar dripiâu a gymerwyd ym mis Gorffennaf/Dechrau Awst

- ‘Gwesty/motel/tafarn a chartref gwyliau’ ar osod yw’r ddau brif fath o lety yr arhoswyd ynddynt ar drip i Gymru ym mis Gorffennaf ac Awst eleni

Ffigur 13b. Rhestr lawn o lety yr arhoswyd ynddo ar drip i Gymru ym mis Gorffennaf/Awst, Canran Net, Wythnosau 10-13, Y DU




VB13f. Ym mha fathau o lety y gwnaethoch chi aros ynddynt yn ystod eich trip i'r DU ym mis Gorffennaf/Awst?
Sail: Pob ymatebydd. Yr holl dripiâu i Gymru n=80; Gwyliau Cymru n=62

Hyd triplau a gymerwyd ym mis Gorffennaf/Dechrau Awst

- Yn weddol gyson â bwriadau triplau, mae gwyliau i Gymru yn fwy tebygol o fod wedi bod yn arosiadau hwy na gwyliau byr, ac oddeutu chwe o bob deg o'r gwyliau a gymerwyd yn wyliau hwy, a phedwar o bob deg o'r triplau a gymerwyd yn wyliau byr.

Ffigur 14. Hyd trip i Gymru Gorffennaf/Awst, Canran Net, Wythnosau 10-13, Y DU.




VB13b. Ai gwyliau byr (1-3 noson) neu wyliau (4+ noson) oedd y trip hwn ym mis Gorffennaf?

Sail: Pob ymatebydd. Yr holl driplau i Gymru n=80; Gwyliau Cymru n=62

Ble'r aeth y rhai a gymerodd drip i Gymru ar ymweliad yng Nghymru

- Mae'r rhai a aeth ar wyliau i Gymru yn fwyaf tebygol o fod wedi aros yn Eryri, ac wedyn Sir Benfro a Chaerdydd. Denodd Eryri fwy o bobl ar eu gwyliau na'r bwriad, fel y gwnaeth Caerdydd, tra bo Sir Benfro yn lled gyfartalog

Ffigur 15. Ymwelodd Ardaloedd Cymru yr ymwelwyd â nhw ar drip ym mis Gorffennaf/Awst, Canran Wythnosau 10-13, Y DU. a Chymru




VB13cii. Ble yn benodol yn yr ardaloedd hynny y gwnaethoch chi aros?
Sail: Pob ymatebydd. Yr holl dripiâu i Gymru n=80; Gwyliau Cymru n=62

Ble'r aeth y rhai a gymerodd drip i Gymru ar ymweliad yng Nghymru

- Mae preswylwyr o'r tu allan i Gymru yn fwyaf tebygol o fod wedi ymweld ag Eryri ar eu gwyliau neu eu gwyliau byr yng Nghymru, ac wedyn Canolbarth Cymru a Bannau Brycheiniog a Llandudno/ Bae Colwyn. Gan adlewyrchu mynediad a dwysedd y boblogaeth, mae preswylwyr o Gymru yn fwy tebygol o fod wedi ymweld â chyrchfannau y ne a gorllewin Cymru – Caerdydd a Sir Benfro yw'r ddwy gyrchfan fwyaf poblogaidd.

Ffigur 15. Ardaloedd Cymru yr ymwelwyd â nhw ar drip ym mis Gorffennaf/Awst, Canran Wythnosau 10-13, Y DU a Chymru

■ Yr Holl Dripiâu i Gymru – Preswylwyr o'r tu allan i Gymru ■ Pob Trip – Preswylwyr o Gymru



CVB4b. Ble yng Nghymru ydych chi'n disgwyl aros ar y gwyliau neu'r gwyliau byr nesaf hwn?
Sail: Pob ymatebydd. Yr holl dripiâu i Gymru n=80; Gwyliau Cymru n=62


**Proffilio marchnad
gwyliau byr a
gwyliau'r
hydref/gaeaf**



Lefel cyfforddusrwydd yn ymgymryd â gweithgareddau gyda 'chyfartaledd cyfforddusrwydd'

- Mae preswylwyr o Gymru yn teimlo'n fwy cyfforddus wrth gynnal 'gweithgareddau bob dydd' nag yn wythnosau 5-8 a chyfran y cyhoedd yng Nghymru sy'n gyfforddus wrth gynnal gwahanol weithgareddau yn cynyddu o 46% i 53%. Bu cynnydd yn y gyfran sy'n gyfforddus gwneud gweithgareddau dan do – gyda chyfran preswylwyr o Gymru sy'n gyfforddus 'bwyta mewn bwyty' yn codi o 28% i 42%.
- Yn gyson ag wythnosau blaenorol, mae preswylwyr y DU yn gyffredinol yn teimlo'n fwy cyfforddus na phreswylwyr o Gymru, yn enwedig wrth 'deithio ar gludiant cyhoeddus'.

Ffigur 16. Lefel cyfforddusrwydd yn cynnal ystod o weithgareddau ar wahân ac wedi'u cyfuno, Ddim yn gyfforddus iawn a gweddol gyfforddus, Wythnosau 9-13, y DU a Chymru




VB11. Yn fras, pa mor gyfforddus neu anghyfforddus fydddech chi'n teimlo i wneud y canlynol yn ystod y mis nesaf?

Sylfaen: Holl breswylwyr o'r DU n=8,947; Holl breswylwyr o Gymru n=1066

Hyder yn y gallu i gymryd gwyliau byr neu wyliau yn y DU

- Ymhlith preswylwyr o Gymru a'r DU, mae hyder ynghylch cymryd gwyliau neu wyliau byr y DU ym mis Medi yn gymharol gyson ag ymchwil a gynhaliwyd fis ynghynt. Mae hyder mewn triapiau sy'n mynd ymlaen rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr a mis Ionawr i fis Mawrth yn is. Mae data o wythnos 13 yn awgrymu bod hyder wedi gostwng hyd yn oed ymhellach yn ddiweddar (Medi i 34% a Hydref i Ragfyr i 41%). Gall y besimistiaeth gynyddol hon ynghylch triapiau gaeaf fod o achos ofnau am ail don o COVID-19 – mae ymchwil arall yn awgrymu bod y mwyafrif llethol o'r DU yn rhagweld y posibilrwydd hwn – a chyfyngiadau symud lleol (gwelodd mis Awst gyfyngiadau symud mewn rhannau o ogledd Lloegr a'r Alban).

Ffigur 17. Hyder mewn cymryd gwyliau byr neu wyliau yn y DU ar draws ystod o fisoedd gwahanol, Canran net yn hyderus iawn a gweddol hyderus, Wythnosau 9-13, y DU a Chymru




CVB7a newydd. Hoffem i chi ddychmygu eich bod wedi archebu gwyliau neu wyliau byr yn y DU ym mhob un o'r chwe chyfnod amser a restrir isod. Yng ngoleuni'r pandemig COVID-19 cyfredol, pa mor hyderus ydych chi y byddech chi'n gallu mynd ar y triapiau hyn? Sylfaen: Holl breswylwyr o'r DU n=8,947; Holl breswylwyr o Gymru n=1066

Rhesymau dros beidio â theimlo'n hyderus i gymryd triapiau yn y DU

- 'Mae gen i bryderon am ddal COVID-19' yw'r prif reswm o hyd dros ddiffyg hyder ynghylch cymryd gwyliau domestig neu wyliau byr ymhlith preswylwyr y DU a Chymru – mae hyn yn uwch nag yn wythnosau 5 i 8, gan adlewyrchu efallai fod mwy o 'bethau i'w gwneud' ar gael wrth i'r cyfyngiadau gael eu codi
- Mae preswylwyr o Gymru yn parhau i fod yn fwy tebygol na'r cyhoedd ehangach o nodi 'cyfyngiadau ar deithio gan y llywodraeth' yn rheswm dros ddiffyg hyder, ond mae'r bwlch rhwng y naill a'r llall wedi cau ers wythnosau 9-13 (o 10 pwynt canran i 6). Mae ffactorau eraill yn llai dylanwadol ar hyn o bryd.

Ffigur 18. Rhesymau dros beidio â bod yn hyderus ynglŷn â theithio rhwng mis Medi a mis Mawrth, Canran, Wythnosau 9-13, y DU a Chymru




CVB8a. Pa rai o'r ffactorau canlynol sy'n cyfrannu at eich ymdeimlad o 'ddim yn hyderus iawn' neu 'ddim yn hyderus o gwbl' ynglŷn â chymryd gwyliau byr neu wyliau yn y DU rhwng mis Medi a Mis Mawrth?

Hyder i gymryd gwyliau byr neu wyliau yn y DU – yn ôl cyfnod bywyd

- Mae hyder yn parhau'n gymharol gyson ar draws cyfnodau bywyd ym mis Medi, ac eithrio oed ymddeol sy'n llai hyderus.
- Cyn-nythwyr yw'r cyfnod bywyd mwyaf hyderus o fis Medi ymlaen, er mai'r cyfnod bywyd hwn hefyd sydd fwyaf tebygol o ddweud bod 'cyllid personol' yn rhwystr rhag mynd ar drip (gweler y sleid nesaf), gan awgrymu mai prin yw'r cyfle iddynt gymryd rhan mewn triapiau 'gwariant uchel'
- Mae pob cyfnod bywyd yn dangos gostyngiad mewn hyder rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr eleni ac o Ionawr 2021 ymlaen

Ffigur 19. Hyder mewn cymryd gwyliau byr neu wyliau yn y DU ar draws ystod o fisoedd gwahanol, Canran net yn hyderus iawn a gweddol hyderus, Wythnosau 9-13, y DU a Chymru




CVB7a newydd. Hoffem i chi ddychmygu eich bod wedi archebu gwyliau neu wyliau byr yn y DU ym mhob un o'r chwe chynnod amser a restrir isod. Yng ngoleuni'r pandemig COVID-19 cyfredol, pa mor hyderus ydych chi y byddech chi'n gallu mynd ar y triapiau hyn?

Sylfaen: Cyn-nythwyr n=2001, Teuluoedd n=2512, Annibynnwyr hŷn n=2231, Nythwyr Gwag n=1576

Rhesymau dros beidio â theimlo'n hyderus am gymryd triapiau yn y DU rhwng mis Medi a mis Mawrth – yn ôl cyfnod bywyd

- Mae rhesymau amrywiol pam na fyddai gwahanol gyfnodau bywyd yn hyderus ynghylch mynd ar drip yn y DU rhwng mis Medi a mis Mawrth. Pryderon am ddal COVID-19 yw'r rheswm a grybwyllir fwyaf o hyd dros beidio â mynd ar drip yn y DU – mae hyn wedi cynyddu o'i gymharu ag wythnosau 5 i 8 ar draws pob cyfnod bywyd.
- Mae cyn-nythwyr yn mynegeoi'n uwch ar gyfer 'cyfyngiadau ar deithio gan y llywodraeth' yn ogystal â 'llai o bethau i'w gwneud/lleoedd i ymweld â nhw' a chyfyngiadau ar gyfleoedd i gymdeithasu.
- Mae cyn-nythwyr a theuluoedd yn dyfynnu 'cyllid personol' a gwyliau blynyddol cyfyngedig yn rhesymau dros beidio â theithio – ffactor sy'n parhau'n llai pwysig i Annibynnwyr Hŷn ac Oed Ymddeol.

Ffigur 20. Rhesymau dros beidio â bod yn hyderus ynglŷn â theithio rhwng mis Medi a mis Mawrth, Canran, Wythnosau 9-13, y DU a Chymru




CVB7a newydd. Hoffem i chi ddychmygu eich bod wedi archebu gwyliau neu wyliau byr yn y DU ym mhob un o'r chwe chyfnod amser a restrir isod. Yng ngoleuni'r pandemig COVID-19 cyfredol, pa mor hyderus ydych chi y byddech chi'n gallu mynd ar y triapiau hyn? Sylfaen: Cyn-nythwyr n=695, Teuluoedd n=783, Annibynnwyr hŷn n=660, Nythwyr Gwag n=447


Nifer y teithiau a ragwelwyd yn y DU eleni o'i gymharu â'r arferol

- Mae cyfran sylweddol uwch o breswylwyr y DU a'r Alban sy'n dweud y byddant yn cymryd llai o gymharu â mwy o wyliau byr domestig neu wyliau rhwng nawr a diwedd y flwyddyn, a 38-40 y cant yn dweud y byddant yn cymryd llai o dripiâu o'u cymharu â 14-15 y cant yn fwy o dripiâu.
- Mae tua dau o bob pump (44%) o breswylwyr y DU yn disgwyl cymryd yr un faint neu fwy o wyliau byr domestig neu wyliau erbyn diwedd y flwyddyn, cyfran debyg i wythnosau 9-13.
- Mae preswylwyr o Gymru ychydig yn fwy tebygol o ddweud y byddant yn cymryd llai o dripiâu yn y DU eleni neu'n dal yn ansicr, yn gyson â chanlyniadau blaenorol

Ffigur 21. Nifer gwyliau byr yn y DU (1-3 noson) dros weddill y flwyddyn hon o'i gymharu â'r arferol, Canran Wythnosau 9-13, y DU a Chymru



Ffigur 22. Nifer gwyliau yn y DU (4+ noson) dros weddill y flwyddyn hon o'i gymharu â'r arferol, Canran Wythnosau 9-13, y DU a Chymru




CVB1b. O'i gymharu â'r arferol, ydych chi'n debygol o gymryd mwy, llai neu tua'r un nifer o wyliau/wyliau byr yn y DU rhwng nawr a diwedd y flwyddyn Sylfaen: Holl breswylwyr o'r DU n=8,947; Holl breswylwyr o Gymru n=1,066


Nifer y tripliau tramor a ragwelwyd eleni o'i gymharu â'r arferol

- Fel yn wythnosau 5 i 8, mae trigolion y DU a Chymru hefyd yn rhagweld 'gostyngiad net' mawr mewn gwyliau byr a *gwyliau* tramor eleni. Mae'r gostyngiad net mewn teithiau tramor yn llawer mwy na'r gostyngiad net yn y teithiau a ragwelir.
- Dywed ychydig o dan hanner y byddant yn cymryd llai o dripliau tramor eleni.
- Fodd bynnag, mae tua un o bob tri o bobl yn parhau'n ansicr ynghylch mynd ar daith dramor a gallent fod yn barod i deithio os bydd y sefyllfa'n gwella.

Ffigur 23. Nifer yr gwyliau byr DRAMOR (1-3 noson) dros weddill y flwyddyn hon o'i gymharu â'r arferol, Canran Wythnosau 9-13, y DU a Chymru



Ffigur 24. Nifer y gwyliau DRAMOR (4+ noson) dros weddill y flwyddyn hon o'i gymharu â'r arferol, Canran Wythnosau 9-13, y DU a Chymru




CVB1b. O'i gymharu â'r arferol, ydych chi'n debygol o gymryd mwy, llai neu tua'r un nifer o wyliau/wyliau byr yn y DU rhwng nawr a diwedd y flwyddyn

Sylfaen: Holl breswylwyr o'r DU n=8,947; Holl breswylwyr o Gymru n=1,066


Pryd y rhagwelir mynd ar wyliau byr neu wyliau nesaf yn y DU

- Mae 1 o bob 5 o breswylwyr o'r DU a Chymru yn bwriadu cymryd gwyliau byr domestig neu wyliau yn yr hydref eleni (Medi neu Hydref), tra bod tua 1 o bob 4 yn bwriadu mynd ar drip yn ystod misoedd y gaeaf (Tachwedd i Fawrth). Nid yw 1 o bob 5 o breswylwyr o'r DU yn gwybod ar hyn o bryd pryd y byddant yn mynd ar eu trip nesaf, gan godi i 1 o bob 4 o breswylwyr o Gymru. Mae tua 1 o bob 12 o breswylwyr y DU a Chymru a gymerodd drip dros nos ym mis Gorffennaf neu Awst hefyd yn rhagweld cymryd un rhwng mis Medi a mis Mawrth 2021.

Ffigur 25. Cyfran sy'n rhagweld trip ym mhob cyfnod amser , Canran, Wythnosau 9-13, Y DU.



Ffigur 26. Cyfran sy'n rhagweld taith ym mhob cyfnod amser, Canran, Wythnosau 9-13, Y DU.




